

Prifysgol De Cymru

Canolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu

Y Broses Ofynnol ar gyfer Cyflwyno Aseiniadau

Mae gan y Brifysgol bolisi o gyflwyno asesiadau ar-lein lle mae'n rhaid cyflwyno pob aseiniad ar-lein a darparu adborth a marciau o fewn 20 diwrnod drwy ddefnyddio Gradecentre.

Noder – Ar hyn o bryd ni chaiff unrhyw farciau a ddarperir drwy'r amgylchedd dysgu eu trosglwyddo'n awtomatig i System Cofnodion Myfyrwyr, Quercus. Mae felly'n bwysig bod y marciau hyn yn cael eu cofnodi yn Quercus at ddibenion prosesu marciau a chyhoeddi'r marciau hyn yn y "Gwasanaeth Canlyniadau" ffurfiol, ac at ddibenion cynnal Byrddau Asesu. Gall staff Gweinyddu Myfyrwyr gynghori ar hyn.

Rhaid i arweinwyr modiwlau sicrhau bod trefniadau cyflwyno ar gyfer pob asesiad yn eglur i'r myfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy UniLearn.

Mae gan TEACH adran sy'n rhoi gwybodaeth bellach ac arweiniad ar declynnau sy'n cynorthwyo asesiadau ac adborth ar-lein

<http://teach.southwales.ac.uk/assessment/>

Trefniadau ar gyfer Cyflwyniadau Corfforol

Cydnabyddir bod eithriadau pan nad yw'n bosibl cyflwyno gwaith ar-lein. Dylid hysbysu rheolwyr academaidd ynghylch eithriadau a'u cytuno ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a dylid hysbysu'r Dirprwy Ddeon. Bydd y Dirprwy Ddeon yn sicrhau bod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweinyddu Myfyrwyr yn derbyn yr eithriadau ar gyfer y Gyfadran erbyn diwedd wythnos gyntaf tymor yr hydref.

Bydd man canolog ar gyfer cyflwyniadau yn yr Ardal Gynghori ar bob campws. Ni ddylid defnyddio blychau postio.

Mae manylion lleoliadau'r Ardaloedd Cynghori ar gael ar UniLife

<http://unilife.southwales.ac.uk/pages/3024-advice-zones>

Gellir trefnu cyflwyniadau *in situ* pan fydd hyn yn fwy priodol (ar gyfer cyflwyniadau trwm/mawr). Dylai tiwtoriaid modiwlau drafod ar y cyd gyda'r Rheolwr Gweinyddu Myfyrwyr lleol a fydd yn gynghori ar y trefniadau priodol.

Rhaid i bob cyflwyniad corfforol gynnwys y Flaendalen Asesu.

Dyddiadau Cau y Cyflwyniadau

Noder: oni bai y rhoddir gwybod i chi am amser cyflwyno penodol, bydd y dyddiadau cau canlynol yn berthnasol:-

Cyflwyniadau ar-lein – 11.59pm (23.59)

Cyflwyniadau corfforol mewn Ardaloedd Cynghori – 4pm (16.00)

Cyflwyniadau *in situ* – yn ôl cyngor tiwtor y modiwl.